# Cofnodion Cyfarfod 14/12/2023

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Y Cyng Tony Parry, Dilys Evans, Rhys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Moira Mai, Clare Mackintosh a Huw Antur (*Clerc*).

**Hefyd yn bresennol:** Y Cyng. Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. John C Williams, Jacqueline Allen, Sion McGuiness ac Eric Williams.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, Eifion Roberts. Cyfeiriodd at anrhydedd ddiweddar a gafodd y Dirprwy Faer, Tony Parry gan Glwb Rygbi Bala, a diolchodd i bawb a ddaeth i seremoni Sul y Cofio yn y dref fis Tachwedd. Dywedodd hefyd iddo gael cyfle i fynychu Cyngerdd Blynyddol Côr Godre'r Aran yn ddiweddar.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 2/11/23.

4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

    i. Siop Bestway: Nodwyd fod gwaith uwchraddio sylweddol wedi bod ar wyneb y siop yn ddiweddar, a bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i ddelwedd y Stryd Fawr.

    ii. Rheolau Sefydlog: Derbyniwyd arweiniad gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg pryd y nodwyd fod gan y cyngor y dewis o gadw cofnodion yn Gymraeg neu yn ddwyieithog. Yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i gadw'r cofnodion yn ddwyieithog, gyda'r clerc i fonitro faint o waith ychwanegol yw cyfieithu'r cofnodion. Yn dilyn hyn fe gytunwyd i fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog.

    iii. Gwasanaeth Ambiwlans: Nodwyd derbyn diweddariad gan y gwasanaeth.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan, pryd y nodwyd fod y gwaith o dorri coed ar y Stryd Fawr wedi ei gwblhau, ond bod angen i Gyngor Gwynedd ddod a chynllun rheoli tymor hir i'r coed o flaen y Cyngor Tref. Dywedodd hefyd fod y gwaith o greu Llwybr Diogel i'r Ysgol yn mynd allan i dendr yn fuan. Rhoddodd amlinelliad o setliad ariannol Cyngor Gwynedd, sefyllfa sy'n debygol o arwain at doriadau mewn gwasanaethau neu hyd yn oed ddirwyn rhai gwasanaethau i ben.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cafwyd adroddiad o gyfarfod o'r pwyllgor dathlu a gynhaliwyd ar Dachwedd 16eg. Trafodwyd y syniad o sefydlu Anrhydeddau'r Bala er mwyn anrhydeddu



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)

unigolion sy'n cyfrannu at y dref a'i phobl. Cytunwyd y dylai'r Cyngor Tref arwain ar y gwaith yma, gan greu hyd at 8 categori gwahanol i'w anrhydeddu. Cytunwyd fod angen sefydlu proses ffurfiol a ffurflen enwebu addas ar gyfer yr anrhydeddau – hyn i'w gytuno yn y cyfarfod o'r cyngor fis Ionawr.

Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o ostwng uchder y gwrych ar Domen y Bala a chytunodd y Cyng Dilwyn Morgan i gael gair â Swyddog Coed Cyngor Gwynedd.

Cytunwyd hefyd i ofyn i Marie Kirkman i blannu cennin pedr (ar ffurf 700) ar faes parcio'r Grin ac ar dybiau blodau'r dref, ac i ddigolledu unrhyw gostau cysylltiedig. Y Cyng Moira Mai i drafod hefo Marie.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

i. <u>Is-bwyllgor y Nadolig:</u> Adroddwyd fod y goleuadau Nadolig ymlaen rai dyddiau cyn y Noson Siopa Hwyr, a bod prif ddisgyblion Ysgol Godre'r Berwyn wedi beirniadu ffenestri siopau ar y noson, gan ddyfarnu Siop Petalau Eleri yn fuddugol. Nodwyd mai dewis Petalau Eleri oedd rhoi cyfraniad tuag at Ganolfan Deulu'r Bala – y cyfraniad yma i'w wneud o Gronfa Maer y Dref. Derbyniwyd neges gan Grŵp Busnesau'r Bala yn nodi fod beirniadaeth wedi bod ar y goleuadau Nadolig ar y cyfryngau cymdeithasol. Cytunwyd i holi trefi eraill (ee Dolgellau, Rhuthun, Betws y Coed) am drefniadau a chostau eu trefniant nhw.

ii. <u>Is-bwyllgor gofalu am a chynnal asedau,</u> gan gynnwys llochesi bws a thaclusrwydd y dref: Nodwyd fod angen baner newydd ar Domen y Bala. Nodwyd hefyd fod mainc wedi torri ger cofeb Tom Ellis – y Clerc i drafod hefo saer lleol.

iii. <u>Is-bwyllgor Tref Gyfeillgar:</u>

iv. <u>Bioamrywiaeth:</u>

**v.** <u>Is Bwyllgor Cyllid:</u> Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar Ragfyr 6ed. Cytunwyd i dderbyn argymhellion yr is bwyllgor (gweler pwynt 9 isod).

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

i) Un Llais Cymru: Ni fu cyfarfod ers y cyfarfod diweddaraf o'r Cyngor Tref.

ii) Cwmni Pum Plwy Penllyn: Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Rhys Evans a chyfeiriodd at ymweliad diweddar swyddogion Partneriaeth Ogwen, pryd y cafwyd cyflwyniad ar eu gwaith yn datblygu asedau a gwasanaethau cymunedol yn ardal Bethesda. Nodwyd fod gwaith sylweddol yn mynd yn ei flaen, gwaith y gellid ei efelychu yn ardal y Bala a Phenllyn.

*8.* **Materion Cynllunio**: Nid oedd materion cynllunio i'w hystyried.

9. **Materion Cyllid:**

- **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £24,144 yn y cyfri cyfredol, £16,401 yn y cyfri cadw a £453 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod £5,000 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd.
- **ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, anfoneb Archwilio Cymru, Gwilym Edwards (Tomen y Bala), HG Web Design (gwefan y cyngor), taliad blynyddol yr ICO, taliadau dyledus HMRC a chyflog y Clerc.
- **iii.** Cytunwyd i drafod ceisiadau ariannol o'r newydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.
- **iv.** Derbyniwyd gwybodaeth am derfyn gwariant Adran 137 y cyngor am y flwyddyn.
- **v.** Cytunwyd i dderbyn argymhelliad yr Is bwyllgor Cyllid, sef sefydlu cyllideb gwariant o £34,657 a gosod praesept o £27,000 am y flwyddyn 2024 / 2025. Nodwyd fod hyn yn golygu gwneud defnydd o £7,657 o falansau'r cyngor.
- **vi.** Derbyniwyd adroddiad o wariant Cronfa'r Maer, ac fe gymeradwywyd trosglwyddo £500 i Gronfa Maer y Dref.
- **vii.** Derbyniwyd yn ffurfiol gofnodion yr Is bwyllgor Cyllid a gyfarfu ar Ragfyr 6ed.

10. **Gohebiaeth:**

- i. Rhaglen Hyfforddiant Un Llais Cymru – rhoddwyd caniatâd i'r clerc fynychu sesiwn hyfforddiant ar weinyddu cyllid llywodraeth leol.
- ii. Cymru Can – derbyniwyd gwybodaeth gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- iii. Cyfyngu parcio Maes y Bronnydd – cytunwyd i gefnogi bwriad Cyngor Gwynedd i osod cyfyngiadau parcio, hyn er mwyn hwyluso trafnidiaeth a gwella diogelwch yn yr ardal yma.
- iv. Cynllun Creu Lle – derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd fod cyfle i greu Cynllun Creu Lle ar gyfer y Bala. Cytunwyd i drafod hyn ymhellach mewn cyfarfod ar Ragfyr 19eg, gyda'r Cyng Rhys Evans, Eluned Jones, Dilwyn Morgan a'r Clerc i gynrychioli'r Cyngor Tref.
- v. Strategaeth Hamdden y Parc Cenedlaethol – derbyniwyd gwybodaeth ac fe anogwyd pawb i ddarllen y strategaeth.
- vi. Tim Tacluso Ardal Ni – nodwyd y bydd y tim yn y dref ddiwedd mis Rhagfyr.
- vii. Diolch am 20 – derbyniwyd cylchlythyr yn rhoi diweddariad am y terfynau cyflymder newydd.
- viii. Palmant o flaen y Llew Gwyn – cafwyd adroddiad fod y palmant yn anwastad mewn mannau a gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r swyddog priodol yng Nghyngor Gwynedd.
- ix. Cynllun Celf Canol Trefi – gofynnwyd i'r Cyng Rhys Evans, Eluned Jones a Dilwyn Morgan drafod syniadau cychwynnol gyda Chyngor Gwynedd.
- x. Stondin Beiciau – gofynnwyd i'r Cyng Dilwyn Morgan a'r clerc drafod opsiynau ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Tre.

xi. Triathlon y Bala – derbyniwyd llythyr yn egluro sefyllfa ddiweddara'r Triathlon, ac fe nodwyd fod partneriaid newydd Camu i'r Copa yn barod i gydweithio i drefnu'r digwyddiad.

xii. Gwrych ger Glannau Tegid – adroddwyd fod angen tocio'r gwrych a gofynnwyd i'r clerc gysylltu hefo swyddfa Grŵp Cynefin.

xiii. Un Llais Cymru – Costau Byw: Derbyniwyd neges gan Un Llais Cymru yn gofyn am enghreifftiau o arfer da wrth daclo costau byw cynyddol. Nodwyd fod Pafiliwn Chwaraeon y Bala a Chwmni Pum Plwy Penllyn yn weithredol yn y maes yma.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Nid oedd materion ychwanegol i'w trafod.

12. Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm, a dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Y cyfarfod nesaf i'w gynnal Nos Iau Ionawr 4ydd 2024.



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)